WYTHNOS 10

DEWISIADAU- IAGO, IOAN A BARTIMEUS

CYN Y SGWRS

> *Croesawch bawb sydd wedi dod ac awgrymwch eu bod yn cymryd 20 munud i weithio trwy'r adran o'r Llawlyfr Astudio o'r enw TRAFODAETH GRŴP I gyda'u grŵp.*

Y SGWRS

> *Cyflwynwch y sgwrs. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod. Diben y sgwrs yw helpu'r cyfranogwyr i ymgodymu â'r hyn y mae'n ei olygu i edifarhau a chredu. Bydd cyfle arall i ddod yn Gristion ar ddiwedd y sgwrs a'r drafodaeth.*

"Ni yw ffrwyth y dewisiadau yr ydym wedi'u gwneud." Yr wythnos diwethaf gwnaethom edrych ar y dewisiadau a wnaed gan y Brenin Herod. Heno hoffwn i ni edrych ar y dewisiadau a wnaed gan bobl eraill yn Efengyl Marc. Beth am droi at Marc pennod 10, a darllenwch adnodau 32-52.

> *Darllenwch Marc 10:32-52 allan yn uchel.*

Welsoch chi'r dewisiadau a wnaed gan y bobl yn y darn hwn? Beth am edrych yn fanylach ar y dewisiadau y mae Iago ac Ioan yn eu gwneud, a'r dewis y mae Bartimeus yn ei wneud.

Mae'r cyd-destun i'w gael yn adnodau 32-34. Mae Iesu yn arwain y disgyblion ac eraill i fyny i Jerwsalem, ac rydym yn darllen bod arnynt arswyd ac ofn o ganlyniad i weithredoedd Iesu. Pam? Cofiwch fod Iesu eisoes wedi dweud wrthynt nifer o weithiau y byddai'r awdurdodau crefyddol yn ei ladd. Ac mae'r awdurdodau hyn yn byw yn Jerwsalem. Felly mae Iesu'n cerdded yn fwriadol i enau marwolaeth.

Edrychwch ar ddiwedd adnod 33 - mae'n dweud yr un peth eto: mae'n dweud wrthynt y bydd yn cael ei gondemnio i farwolaeth gan yr awdurdodau crefyddol a'i drosglwyddo i'r Cenhedloedd - mewn geiriau eraill, yr awdurdodau Rhufeinig. Byddant yn ei watwar, yn poeri arno, yn ei fflangellu a'i ladd. Byddai'n cael ei gondemnio yn Jerwsalem gan arweinwyr y genedl.

Yn wyneb amgylchiadau o'r fath, mae dau o'i ddisgyblion - Iago ac Ioan - yn gwneud cais sy'n hynod o amhriodol.

> *Bydd yn rhaid i chi gael y penawdau canlynol yn barod i'w dangos, gan ddangos pob un o'r penawdau yn raddol wrth i'r sgwrs fynd yn ei blaen.*

Dewis y disgyblion

Dewis Bartimeus

DEWIS Y DISGYBLION

Edrychwch ar adnodau 35-37.

> *Darllenwch Marc 10:35-37 allan yn uchel.*

Er bod Iago ac Ioan yn cyfeirio at Iesu fel "athro," mae'n amlwg nad ydynt wedi deall llawer am yr hyn y mae wedi'i ddysgu, oherwydd maent yn dewis gofyn i Iesu am ogoniant: "Dyro i ni gael eistedd, un ar dy law dde ac un ar dy law chwith yn dy ogoniant."

Nawr, er mor wrthnysig yr ymddengys hyn ar ôl yr hyn y mae Iesu newydd ei ddweud am farw, ni ddylai beri syndod i ni. Nid dyma'r tro cyntaf i'r disgyblion ymddwyn fel hyn. Tua diwedd pennod 9, mae Iesu'n dweud wrthynt y byddai'n cael ei fradychu a'i ladd. A beth yw eu hymateb? Ydyn nhw'n galaru ac yn llefain oherwydd bod eu harweinydd annwyl yn mynd i gael ei ladd? Nac ydyn, maen nhw'n dechrau dadlau â'i gilydd pwy oedd y mwyaf!

Yr un yw ymateb Iesu â'i ymateb yn y darn yr ydym newydd ei ddarllen. Mae'n eu dysgu.

Mae Iesu'n gwybod bod Iago ac Ioan yn methu'r pwynt wrth ofyn am gael eistedd ar orseddau ar bob ochr iddo. Mae'n dweud wrthynt: "Ni wyddoch beth yr ydych yn ei ofyn." Ac mae'n ceisio cywiro eu meddwl. Yn adnod 38 mae'n dweud, "A allwch chwi yfed y cwpan yr wyf fi yn ei yfed, neu gael eich bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi ag ef?"

Yn yr Hen Destament, mae'r "gwpan" yn cyfeirio'n gyffredinol at ddioddefaint. Mae hefyd yn cyfeirio at gwpan digofaint Duw. Mae gan "bedydd" yr un ystyr. Felly'r hyn y mae Iesu'n ei ddweud wrth Iago ac Ioan yw: "Allwch chi wneud yr hyn yr wyf fi am ei wneud? Allwch chi oddef y gosb y mae pechod yn ei haeddu? Allwch chi oddef barn Duw, ac achub eraill wrth wneud hynny?" A'r ateb, wrth gwrs, yw na allant. Fel chi a fi, mae'n rhaid iddynt gael eu hachub eu hunain oddi wrth lid a barn Duw. Fel y dywedodd Iesu, nid ydynt yn gwybod beth y maent yn ei ofyn.

Yn anffodus, oherwydd bod Iago ac Ioan eisiau gogoniant, nid ydynt yn gweld bod marwolaeth Iesu yn angenrheidiol. Maent yn rhagweld, unwaith y bydd teyrnas Iesu wedi'i sefydlu, y bydd sgrialfa annuwiol am y seddi gorau, felly maent yn credu ei bod yn ddoeth ceisio sicrhau lle ymlaen llaw. Maent eisiau cael eu neilltuo. Maent yn fentrus ac eisiau statws, maent yn hynod o uchelgeisiol, yn awchu am fri a ffortiwn. Nid yw dioddef a marwolaeth yn croesi eu meddwl.

Mae llawer o bobl eisiau'r swydd orau, y car gorau, y tŷ gorau, ac mae'r un peth yn wir am y ddau hyn sy'n dilyn Iesu.

Ac efallai nad yw'n syndod, o gofio'r math o gefndir sydd gan Iago ac Ioan. Rydym yn gwybod bod gan eu tad Sebedeus, dŷ llawn gweision oherwydd cyfeirir atynt mewn cysylltiad â'u busnes pysgota. Ac efallai wrth ddilyn Iesu, bod Iago ac Ioan wedi colli cael gweision yn gweini arnynt. Efallai eu bod yn fodlon gadael eu tŷ a'u teulu a'r busnes pysgota a'r gweision, cyhyd ag y gallent gael rhywfaint o bŵer a bri.

Ac os ydym yn edrych ar yr hyn sy'n mynd ymlaen o'n cwmpas, rwy'n credu y gallwn weld y chwant hwn am bŵer ym mhobman bron. Rydym yn ei weld ym myd gwleidyddiaeth a'r bywyd cyhoeddus; rydym yn ei weld mewn busnesau a diwydiannau mawr; rydym yn ei weld yn y proffesiwn meddygol, y proffesiwn cyfreithiol, ym myd chwaraeon ac yn y celfyddydau. Yn anffodus, rydym hefyd yn ei weld yn yr eglwys. Mae'n hawdd troi'r pulpud yn orsedd o awdurdod a phŵer.

Pan fo'r disgyblion eraill yn clywed am gais Iago ac Ioan, darllenwn eu bod wedi digio. Tybed a oeddent yn ddig oherwydd hurtrwydd Iago ac Ioan, neu wedi'u cythruddo oherwydd na wnaethant hwy ofyn gyntaf?

Ond mae Iesu'n ein galw i droedio llwybr gwahanol. Edrychwch eto ar adnod 42 a'r adnodau canlynol.

Darllenwch Marc 10:42-45 allan yn uchel.

Mae'r rhai a ystyrir yn llywodraethwyr yn y byd paganaidd yn arglwyddiaethu ar bawb, ac mae eu gŵyr mawr yn dangos eu hawdurdod drostynt, ond mae Iesu'n dweud: "ond nid felly y mae yn eich plith chwi." Dyma eiriau y dylem eu tanlinellu yn ein Beiblau: "nid felly y mae yn eich plith chwi."

Ni ddylai Iago ac Ioan - ac mae'r un peth yn wir am holl ddilynwyr Crist wedi hynny - ddechrau ar daith sy'n chwilio am bŵer, bri a statws. Yn hytrach, dylent ddilyn yr esiampl y mae eu Brenin yn ei gosod. Edrychwch eto ar adnod 45: "Oherwydd Mab y Dyn, yntau, ni ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer."

Mae Iesu yn defnyddio ei bŵer i *wasanaethu*. Dyna'r cyferbyniad mawr rhwng Iago ac Ioan ac Iesu. Y peth olaf ar feddwl Iago ac Ioan wrth wneud eu cais i Iesu yw gwasanaethu. Yr unig beth y maent ei eisiau yw cael eu *gwasanaethu*, ac yn waeth, maent eisiau cael eu gwasanaethu gan yr union ddyn a fydd yn achub eu bywydau.

Mewn cyferbyniad, mae Iesu yn dilyn ffordd y groes. Nid yw'n ceisio ei ogoniant ei hun, ond yn hytrach, yn ei gonsýrn dros eraill, mae'n cerdded yn fwriadol tuag at boen a chywilydd. Mae eisiau gwasanaethu'n unig. Wrth iddo fynd yn fwriadol tuag at Jerwsalem, mae'n dewis croes, nid gorsedd, mae'n dewis coron ddrain yn hytrach na choron aur. Mae Iesu'n troi pethau wyneb i waered: "... pwy bynnag sydd am fod yn fawr yn eich plith, rhaid iddo fod yn was i chwi, a phwy bynnag sydd am fod yn flaenaf yn eich plith, rhaid iddo fod yn gaethwas i bawb."

Mae'r disgyblion eto i ddeall y gwirionedd y mae Iesu eisoes yn ei wybod wrth fynd tuag at Jerwsalem: sef mai'r unig ffordd i fod yn fawr yn nheyrnas Duw yw bod yn ostyngedig. I wasanaethu yn hytrach na chael eich gwasanaethu. Ac os yw hynny'n wir am Iesu - dyn sydd ag awdurdod a phŵer Duw - bydd yn sicr yn wir amdanom ni.

Felly rydym wedi gweld bod y disgyblion wedi dewis gofyn am ogoniant. Ond mae Bartimeus, y dyn dall, yn dewis gofyn am rywbeth gwahanol iawn.

DEWIS BARTIMEUS

Mae Bartimeus yn wahanol i'r disgyblion mewn nifer o wahanol ffyrdd. Yn adnod 47, mae'n cydnabod mai Iesu yw "Mab Dafydd" - mewn geiriau eraill, mai ef yw Brenin Duw ym myd Duw. Yn adnod 51, yn hytrach na chyfeirio at Iesu fel "athro" fel y disgyblion, mae Bartimeus yn defnyddio gair sy'n golygu "Meistr" yn yr iaith wreiddiol. Felly mae Bartimeus yn dweud, "Meistr, y mae arnaf eisiau cael fy ngolwg yn ôl." Yn eironig iawn, er nad ydynt yn gorfforol ddall, dyna'r union gais y dylai Iago ac Ioan fod wedi'i wneud, oherwydd hwy yw'r rhai sydd ddim yn gallu gweld beth mae'n ei olygu i ddilyn Iesu. Sylwch hefyd, tra'r oedd y disgyblion eisiau i Iesu wneud beth bynnag yr oeddent hwy yn gofyn amdano, mae Bartimeus yn gofyn am drugaredd. Mewn geiriau eraill, mae'n cydnabod nad yw'n haeddu unrhyw beth gan Iesu. Mae'n gweiddi, "trugarha wrthyf!"

Ydych chi'n gweld pa mor wahanol ydyw o'i gymharu ag Iago ac Ioan? Nid gweiddi am bŵer a statws mae Bartimeus, ond yn hytrach am drugaredd. A hyd yn oed pan fo pobl yn dweud wrtho am dewi, mae'n parhau i ofyn. Mae'r dyn dall hwn wedi gweld pwy yw Iesu go iawn a beth mae'n ei olygu i'w ddilyn. Mewn cyferbyniad, mae'r disgyblion yn ddall.

Felly mae Iesu yn ei groesawu ac yn galw arno ac yn gofyn yr un cwestiwn iddo ag y gofynnodd i'r disgyblion: "Beth yr wyt ti am i mi ei wneud iti?" A sylwch, tra bod y disgyblion yn cael eu ceryddu gan Iesu, mae Bartimeus yn cael ei iacháu: "'Dos,' meddai Iesu, 'y mae dy ffydd wedi dy iacháu di.'" Ac yn llythrennol mae'r frawddeg hon yn golygu, "Y mae dy ffydd wedi dy achub di."

Felly, tra bod Iago ac Ioan yn gofyn am statws ac yn cael cerydd llym, ac Iesu'n dweud, "Ni wyddoch beth yr ydych yn ei ofyn," mae Bartimeus yn gofyn am drugaredd ac yn cael ei achub.

Sut, felly ddylem ni ymateb i Iesu?

Os ydych eisoes wedi ymddiried ynddo am faddeuant, yna efallai eich bod angen dysgu'r un wers ag Iago ac Ioan: mae dilyn Iesu yn ymwneud â gwasanaethu, nid statws.

Ond os nad ydych wedi ymddiried yn Iesu am faddeuant eto, yna mae'n rhaid i chi wneud yr un peth ag y gwnaeth Bartimeus: cydnabod pwy yw Iesu, galw allan arno am drugaredd, a'i ddilyn.

AR DDIWEDD Y SGWRS

Dyma rai cwestiynau ar gyfer eich grwpiau

> *Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

- **Gyda phwy ydych chi'n uniaethu fwyaf: Iago ac Ioan neu Bartimeus?**
- **Pa ddewisiadau fyddwch chi'n eu gwneud yn seiliedig ar yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu yn ystod Darganfod Cristnogaeth?**

> *Caniatewch 30 munud i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd trwy'r adran yn y Llawlyfr Astudio o'r enw Trafodaeth Grŵp 2.*

AR DDIWEDD Y DRAFODAETH

Wrth i ni ddod at ddiwedd y cwrs, pa ddewisiadau sy'n rhaid i chi eu gwneud o ganlyniad i'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu yn ystod **Darganfod Cristnogaeth**? Efallai bod rhai ohonoch yn dal i fod â chwestiynau, ond efallai bod rhai ohonoch wedi deall pwy yw Iesu, pam y daeth ef, a beth mae'n ei olygu i'w ddilyn. Os yw hynny'n wir amdanoch chi, yna dyma weddi y gallwch ei gweddïo i ddechrau eich bywyd o ddilyn Iesu. Yr un weddi yw hi â'r un y gwnes i ei darllen yn Wythnos 7, a chofiwch fod copi o'r weddi hefyd yn eich *Llawlyfr Astudio*, felly gallwch fynd â'r weddi adref a meddwl trwyddi yn eich amser eich hun, os hoffech.

Rwyf am ddarllen y weddi allan yn uchel unwaith, er mwyn i chi wybod yn union beth mae'r weddi'n ei dweud. Yna os ydych yn penderfynu ei bod yn weddi yr hoffech chi ei gweddïo, gallwch adleisio'r weddi'n dawel i chi eich hun pan fyddaf yn ei darllen yr eildro.

Dad nefol, rwyf wedi gwrthryfela yn dy erbyn. Pechais yn fy meddyliau, fy ngeiriau a'm gweithredoedd - weithiau yn ddiarwybod, weithiau'n fwriadol. Mae'n ddrwg gen i am y ffordd rwyf wedi byw, ac rwy'n gofyn i ti faddau i mi. Diolch fod Iesu wedi marw ar y groes er mwyn i mi gael maddeuant. Diolch am gael gweld yn glir yn awr pwy yw Iesu a pham y daeth ef. Os gweli di'n dda, anfon dy Ysbryd Glân i'm helpu i'w ddilyn ef beth bynnag fo'r gost. Amen

> *Darllenwch y weddi eto. Darllenwch yn araf, gan roi amser i'r cyfranogwyr adleisio'r weddi'n ddistaw i'w hunain.*

Os gwnaethoch chi weddïo'r weddi, rhowch wybod i un o'r arweinwyr er mwyn iddynt eich helpu wrth i chi ddechrau ar y bywyd Cristnogol.

Hoffwn ddiolch i chi gyd am roi o'ch amser i ddod, ac am gyfrannu cymaint i'r grŵp. Mae wedi bod yn fraint cwrdd â chi. A fyddech cystal â defnyddio'r **FFURFLEN ADBORTH** i roi gwybod i ni beth oeddech chi'n ei feddwl o'r deng wythnos diwethaf.

> *Oherwydd mai hwn yw diwedd y cwrs, ymhelaethwch ar y dewisiadau sydd ar gael nawr i'w cyfranogwyr (e.e. cyrsiau dilynol, cyrsiau disgyblaeth, neu gyrsiau Darganfod Cristnogaeth yn y dyfodol). Ar ôl darllen trwy un llyfr yn y Beibl, efallai yr hoffech awgrymu eu bod yn dewis un o'r 65 llyfr sydd ar ôl a gweithio trwy hwnnw!*